Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Bil Teithio Llesol (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn ystod Cyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Teithio Llesol (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cafodd y Bil ei gyflwyno ar **18 Chwefror 2013** gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a chyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y **Pwyllgor Menter a Busnes** ('y Pwyllgor') i graffu arno yng Nghyfnod 1. Yn sgîl ad-drefnu'r Cabinet ym mis **Mawrth 2013**, daeth John Griffiths AC yn Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, ac o 18 Mawrth, ef yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym **mis Mai 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis.

Cafodd egwyddorion cyffredinol y Bil eu cymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **4 Mehefin 2013**.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 5 Mehefin. Cafodd 57 o welliannau eu cyflwyno, 30 ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Roedd 7 o'r 57 yn welliannau gan y gwrthbleidiau i welliannau'r Llywodraeth. Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau i gyd a'u gwaredu ar **4 Gorffennaf 2013**.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil**, sydd wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Y gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd pob un o'r 30 o welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth eu cytuno. O'r 27 o welliannau a gyflwynwyd gan Aelodau'r gwrthbleidiau, cafodd 4 eu derbyn, gwrthodwyd 17 ohonynt, cafodd 2 eu tynnu'n ôl, a methodd 4 arall.

Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil:

### Gwelliant parhaus (llwybrau teithio llesol)

- Roedd **gwelliant 22** yn dileu'r cyfeiriad yn y Bil at 'gwelliant parhaus' ac yn rhoi diffiniad diwygiedig yn ei le. Bwriad hynny oedd ei gwneud yn gliriach i'r sawl y disgwylir iddo gydymffurfio â'r ddarpariaeth. Cafodd y gwelliant ei gyflwyno yn dilyn argymhellion 12 ac 13 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.
- Roedd **gwelliannau 22B a 22B** o eiddo'r gwrthbleidiau yn gwneud mân-ddiwygiadau i'r diffiniad diwygiedig a gafodd ei gynnwys gan welliant 22.

### Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr

- Tynnodd **gwelliannau 2 a 23** y geiriau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol 'roi sylw i ddymunoldeb gwella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerdded a beicio', a rhoi yn eu lle ofyniad iddynt 'gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth' honno. Roedd hyn yn sgîl argymhelliad 14 y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

### 'Llwybr teithio llesol' a 'cyfleusterau cysylltiedig'

- Darparodd **gwelliannau 3 ac 12** y dylid ystyried croesfannau yn rhan annatod o lwybr teithio llesol yn hytrach na'n gyfleuster cysylltiedig ag ef.

- Roedd **gwelliant 11** yn diffinio 'taith teithio llesol' fel taith a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu oddi yno, neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden, neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill.
- Rhoddodd **gwelliant 14** y pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol i'w helpu i benderfynu beth sy'n cyfrif fel 'cyfleusterau cysylltiedig'.

## 'Cerddwyr a beicwyr'

- Roedd **gwelliant 5** yn diffinio 'cerddwyr a beicwyr' i gynnwys pobl anabl sy'n  defnyddio cymhorthion symudedd, a hynny yn unol ag argymhelliad 15 y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

## Dynodi mannau

- Diwygiodd **gwelliannau 6 a 7** adran 2(3) o'r Bil drwy ychwanegu 'y potensial, am resymau eraill' i rywle gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru yn fan at ddibenion y Bil.
- Diwygiodd **gwelliant 7A**, a gyflwynwyd gan Eluned Parrott AC, welliant 7 fel bod agosatrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn ffactor i'w hystyried gan Weinidogion Cymru wrth ddynodi man at ddibenion y Bil.

## Mapiau llwybrau presennol

- Cafodd adran 3 o'r Bil ei diwygio, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ar eu mapiau llwybrau presennol (**gwelliant 15**), i baratoi mapiau llwybrau presennol o fewn blwyddyn, yn hytrach nag o fewn tair blynedd (**gwelliant 16**), ac i gyflwyno dogfennau ar y cyd â'r mapiau i ddangos sut y maent wedi cymhwyso'r canllawiau ar safonau (**gwelliant 17**).
- Effaith **gwelliant 37**, a gyflwynwyd gan Eluned Parrott AC, oedd sicrhau bod y terfynau amser ar gyfer paratoi'r mapiau llwybrau presennol ac am eu cyflwyno yn cyd-daro, gyda'r bwriad o leihau'r baich ar awdurdodau lleol o ran amser ac arian. Bwriedwyd iddo hefyd sicrhau cysondeb â'r newidiadau a wnaed i'r Bil gan y Llywodraeth.
- Roedd **gwelliant 21** yn ymestyn y gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi mapiau drwy gynnwys gofyniad newydd iddynt gyhoeddi'r datganiad a'r esboniad a gyflwynir gyda mapiau llwybrau presennol.

## Mapiau rhwydwaith integredig

- Roedd **gwelliant 19** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phobl benodol wrth baratoi eu mapiau rhwydwaith integredig, a hynny yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

## Adolygu gweithrediad y Ddeddf

- Effaith **gwelliant 24** fydd i Weinidogion Cymru orfod adolygu gweithrediad y Ddeddf gyfan o fewn pum mlynedd i'w gweithredu. Roedd hyn ar sail argymhelliad gan y ddau Bwyllgor y dylid gallu mesur a monitro'r dyletswyddau ynddi o ran gwella'r rhwydwaith.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Ymrwymiadau'r Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC, i ystyried a thrafod rhai materion penodol cyn y ddadl yng Nghyfnod 3. Dyma'r manylion perthnasol:

### Hybu teithio llesol

- Byddai derbyn **gwelliannau 33, 38 a 39**, a gyflwynwyd gan Eluned Parrott AC, wedi golygu ei bod yn ofynnol ar awdurdodau lleol i hybu teithio llesol a'r defnydd diogel o lwybrau teithio llesol ymhlith y cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog fod ganddo rai pryderon am effeithiau a geiriad rhai o'r gwelliannau hyn, er y gallant fod yn briodol. Dywedodd ei fod yn credu bod yr egwyddor a oedd yn sail iddynt yn gadarn, ac y byddai'n edrych yn fanwl iawn ar y materion hyn yn ystod Cyfnod 3.

### Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth adeiladu a gwella priffyrdd

- Cyflwynodd Eluned Parrott AC **welliant 44**, a fyddai wedi'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth ymgymryd â gwaith i adeiladu a gwella priffyrdd. Nid oedd y Gweinidog yn teimlo ei fod yn gallu cefnogi'r gwelliant, gan ddweud y gallai olygu arian mawr neu oedi mawr o ran y gwaith, ond ymrwymodd i ystyried yn ystod Cyfnod 3 sut orau i wireddu'r egwyddor.

- Cyflwynodd Eluned Parrott AC **welliant 45** hefyd, a oedd yn ceisio creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried dymunoldeb hybu teithio llesol, a hyrwyddo gweithio ar draws y portffolios iechyd, amgylchedd a thrafnidiaeth yn y gwaith o hybu teithio llesol. Fodd bynnag, nid oedd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant, gan ddweud nad oedd y drafftio yn briodol. Dywedodd bod dymunoldeb hybu teithio llesol yn bolisi da, ac y byddai'n ystyried y mater ymhellach yn ystod Cyfnod 3.

### Adolygu gweithrediad y Ddeddf

- Ceisiodd Alun Ffred Jones AC ddiwygio gwelliant 24 y Llywodraeth gyda'i **welliant 31**, a geisiai newid y gofyniad i adolygu'r Ddeddf bob pum mlynedd i'w hadolygu bob blwyddyn ariannol, a hynny am nad oedd yn cyfateb yn llawn i argymhellion y ddau Bwyllgor. Er bod y Gweinidog wedi datgan ei fod yn barod i gefnogi gwelliant 31, roedd y gwelliant eisoes wedi'i dynnu'n ôl cyn y cyfarfod, ac felly cytunodd y Gweinidog i ailystyried y mater yn ystod Cyfnod 3.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 5 Gorffennaf 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Mae modd i Aelodau gyflwyno gwelliannau pellach drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth (**legislationoffice@cymru.gov.uk**) tan 6pm ddydd Mawrth, 24 Medi 2013. Cynhelir y trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2013.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Liz Wilkinson (**elizabeth.wilkinson@cymru.gov.uk**).